## Adborth

Bydd y broses ailddilysu yn ei gwneud yn ofynnol i nyrsys a bydwragedd gasglu ac adolygu'r adborth a gânt, a myfyrio ar y ffordd y gallant ei ddefnyddio er mwyn gwella ymarfer cyfredol.

Ni ofynnir i nyrsys a bydwragedd roi'r adborth ei hun i'r NMC. Yn hytrach, bydd angen iddynt goladu a darparu o leiaf bum darn o waith myfyriol o'r ffordd y mae'r adborth a gawsant ganddynt wedi gwella neu gadarnhau eu hymarfer ac wedi trafod y rhain fel rhan o'u cadarnhad.

Pan fydd y nyrs neu'r fydwraig wedi cael adborth, dylai fyfyrio ar y canlynol:

- A yw'r adborth yn briodol iddi hi a'i hymarfer
- Pa feysydd o'i hymarfer sydd wedi'u cadarnhau neu a allai gael budd o welliant
- Sut y gall roi unrhyw welliannau ar waith
- Pa ganlyniadau y mae wedi'u cael mewn ymarfer a sut mae'r rhain wedi bod yn gysylltiedig â'r Cod

Bydd yr NMC yn datblygu templed ar gyfer darparu cyfrifon myfyriol.

### *Sut i gael adborth*

Fel rhan o'u gwaith, dylai nyrsys a bydwragedd eisoes fod yn ceisio adborth o amrywiaeth o ffynonellau yn dibynnu ar gwmpas eu hymarfer, fel ffordd barhaus o wella eu hymarfer.

At ddiben ailddilysu, ni fydd yn bwysig sut y caiff y wybodaeth hon ei rhoi h.y. yn ysgrifenedig neu ar lafar, dim ond ei bod wedi'i derbyn a bod myfyrio wedi bod arni. Fodd bynnag, yn dibynnu ar ba un sydd fwyaf priodol yng nghwmpas eu hymarfer, dylai nyrsys a bydwragedd geisio cael adborth gan gleifion (neu eu teuluoedd neu eu gofalwyr), neu ddefnyddwyr gwasanaethu (e.e. myfyrwyr), neu gydweithwyr.

Mae'n rhaid rhoi ystyriaeth wrth benderfynu a ddylai nyrs neu fydrwaig geisio cysylltu â chlaf, aelod o'r teulu neu ofalwr, neu ddefnyddiwr gwasanaeth, a phryd a sut.

Gallai adborth a geir gan grŵp y mae'r nyrs neu'r fydwraig yn aelod ohono - er enghraifft, pob aelod o staff ar ward - gael ei ddefnyddio at ddiben ailddilysu, os yw wedi defnyddio'r adborth hwnnw er mwyn gwella neu gadarnhau ei hymarfer.

Efallai bod nyrs neu fydwraig, fel mater o drefn, eisoes yn cael adborth yn rheolaidd heb ofyn amdano neu drwy systemau adborth sydd eisoes gan gyflogwr.